OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 1787 (Cy. 128)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *1 Mai 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Mehefin 2001* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), 17(1), 26(1) and (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi, ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ar ôl rhoi sylw, yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1990 p.16; diwygiwyd adran 6(4)(a) o'r Ddeddf gan Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p.40), Atodlen 9, paragraff 6 a chan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28), Atodlen 5, paragraff 10(3). Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); mae swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" yn arferadwy bellach, mewn perthynas â Lloegr, gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999; trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â'r Alban, i "the Scottish Ministers" gan adran 53 o Ddeddf yr Alban 1998 (p. 46). Mae Rheoliad 13(4) o O.S. 2000/656 yn awdurdodi'r Ysgrifennydd Gwladol yn ddiamwys i ddiwygio'r Rheoliadau sy'n bodoli eisoes ac a wnaed gan y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (p'un ai gydag eraill neu beidio) o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

(**2**) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).